**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (96)**

**Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2004**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
*Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau*

**Eitem 4 - TYNNWYD YN ÔL**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog Cymru**
**NDM2165 Karen Sinclair (De Clwyd)**

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1988, yn penderfynu dirprwyo'r holl swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ac o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r swyddogaethau hynny na ellir yn gyfreithiol eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

2. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

3. Caiff y swyddogaeth hon ei dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y bydd swyddogaethau sy'n cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

*Nid yw'r cynnig hwn yn gweithredu fel ei fod yn dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad swyddogaethau sy'n cael eu rhoi gan neu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn uniongyrchol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.*

*Gellir dod o hyd i gopi o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar y rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040023.hTM - Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

**Eitem 5**
**Cynnig i benodi Archwilydd Cyffredinol nesaf Cymru – Cafwyd dadl ar y Cynnig hwn ar 3 Tachwedd.**

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo Siarter y Rhanbarthau**
**NDM2164 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo Siarter Rhanbarthau Ewrop, un o fentrau Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE), a gymeradwywyd yn Fflorens ar 19 Medi 2003, ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Tachwedd 2004.

Cliciwch yma i weld y Siarter - *Dim copi Cymraeg ar gael*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

'tra'n cefnogi goruchafiaeth amlwg y gwladwriaethau sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd o ran cynnal hawliau a rhyddid eu rhanbarthau a'u cenhedloedd.'

**Eitem 7**
**Dadl ar Adroddiad y Grwp Gweithredu Polisi Chwarae**
**NDM2166 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi Argymhellion y Grwp Gweithredu Polisi Chwarae

2. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori ar yr Adroddiad a chyhoeddi ei hymateb erbyn Ebrill 2005.

*Anfonwyd copïau o 'Argymhellion Grwp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad*

*Cymru' a 'Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad ar Chwarae' drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Tachwedd 2004.*

Cliciwch yma i weld Argymhellion Grwp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru'
Cliciwch yma i weld 'Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad ar Chwarae' - *Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

**Eitem 8**
**Dadl ar Adroddiad Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol**
**NDM2163 Gwenda Thomas (Castell-nedd)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 14.7, yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o dan y teitl "Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol" a osodwyd ar 14 Gorffennaf 2004.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad

**Eitem 9**
**Dadl fer - NDM2162 Janet Davies (Gorllewin De Cymru): Y Diwylliant Alcohol**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**